FSPBA09

Prosesu'r dogfennau ar gyfer cyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chi'n darparu dogfennau i gwsmeriaid yn dystiolaeth o'r cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu y cytunwyd arno. Ar ôl i'r cais gael ei dderbyn, byddwch yn paratoi ac yn cyflwyno'r dogfennau gofynnol i'r cwsmer, gan ddatrys unrhyw amwysder neu anghysondeb. Rhaid i chi sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei phrosesu'n gywir a bod y dogfennau a gynhyrchir o ganlyniad yn gywir. Bydd angen i chi gasglu a rheoli gwybodaeth yn effeithiol, yn effeithlon, yn foesegol a chan barchu cyfrinachedd. Bydd angen hefyd i chi gyflwyno gwybodaeth yn glir ac yn gryno a rhoi sylw i fanylion sy'n hollbwysig i'ch gwaith.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Casglu'r holl wybodaeth angenrheidiol i brosesu dogfennaeth yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
2. Nodi'r wybodaeth gywir yn y man priodol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
3. Cynhyrchu dogfennau sy'n gywir ac sy'n unol â gweithdrefnau eich sefydliad
4. Datrys unrhyw anghysondebau neu elfennau nad ydynt yn cyfateb yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
5. Cyflwyno dogfennau i'r rhai sydd eu hangen yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. Cadw cofnodion cyflawn wedi'u diweddaru yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
7. Gwirio bod dogfennau'n gywir, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
8. Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, safonau moesegol, polisïau sefydliadol a chodau proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Terfynau eich awdurdod
2. Ffynonellau gwybodaeth a chyngor
3. Safonau eich sefydliad o ran gwasanaeth ac amserlen
4. Sut mae cael mynediad i gofnodion cwsmeriaid
5. Systemau a gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer cofnodi gwybodaeth
6. Sut mae delio gyda sefyllfaoedd lle mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn datgelu anghysondebau neu elfennau nad ydynt yn cyfateb
7. Polisi a gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer cyfathrebu â chwsmeriaid
8. Gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer paratoi dogfennaeth yn dystiolaeth o gyfrifon banc a chymdeithas adeiladu
9. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso codau, cyfreithiau a gofynion rheoliadol, gan gynnwys safonau moesegol sy'n cael effaith ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn arddangos dealltwriaeth o bobl eraill ac yn delio gyda nhw mewn modd proffesiynol
2. Rydych yn datgelu gwybodaeth dim ond i'r rhai sydd ei hangen

FSPBA09

Prosesu'r dogfennau ar gyfer cyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPBA09 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Cyfrifon Banc |
| **Geiriau Allweddol** | Gwallau; gweithdrefnau; dogfennaeth; lefelau arian parod; trafodion amheus; anghysondebau; risgiau; gwyngalchu arian; goruchwyliaeth; gwaith tîm; awdurdod; diogeledd; tynnu allan |